Cefndir Neuadd Bentref Llanbedr

Gweinyddir y Neuadd gan elusen Canolfan Gymdeithasol Llanbedr, rhif elusen 525204. Fel pob elusen gofrestredig mae manylion i'w gweld ar y safle we https://register-of-charities.charitycommission.gov.uk/cy/

Seydlwyd yr elusen ym 1979 pan drosglwyddwyd adeilad a oedd yn eiddo i'r WI i'r elusen i'w gael ei defnyddio fel neuadd bentref. I bob pwrpas mae cyfansoddiad yr elusen yn aros fel yr oedd ond fod y difiniad o ymddiriedolwyr wedi newid. Yn y cychwyn roedd dau cynghorydd cymuned a chynichiolwr o nifer o fudiadau lleol wedi ei henwi fel ymddriedolwyr. Tros amser peidiodd rhai o'r mudiadau a bod a methodd eraill a chynig enwau i fod yn ymddiriedolwr. O ganlyniad, twy ganiatad y Comisiwn Elusenau, newidiwyd y cyfansoddiad fel bod pob cynghorydd cymuned yn ymddiriedolwr (os nad oeddynt yn dymuno peidio a bod) a bod hawl i gyfethol eraill. Ar y pryd mae'r cynghorwyr presenol a dau arall wedi ei cyfethol. Mae'r elusen yn awyddus iawn i gyfethol eraill felly os oes gennydch ddiddordeb mewn gwirfoddoli cysylltwch a'r ysgrifennydd drwy'r e bost neuadd.llanbedr@outlook.com.

Tua 1995 trosglwyddwyd y cae ger Bryn Deiliog o'r cyngor cymuned i'r elusen gyda'r amod fod y cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw'r safle. Hyn er mwyn gallu derbyn cymhorthdal i greu maes chwarae.

Daeth yn amlwg erbyn dechrau'r ganrif hon fod angen buddsoddi i wella'r adnoddau oedd ar gael yn yr hen adeilad. Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus penderfynwyd fod angen adeilad newydd. Cyflogwyd pensaer i baratoi cynllun

a gwnaed cais am arian loteri. Yn anffodus methiant oedd hyn. Y rheswm a roddwyd oedd bod yn gynllun yn rhy uchelgeisiol ar gyfer pentref o faint Llanbedr. Drwy garedigrwydd y cynghorydd Gruffydd Price cafwyd cynllun newydd yn seiliedig ar wella ac ychwanegu at yr hen adeilad. Ar sail y cynllun yma gwnaed cais llwyddiannus am arian loteri a hefyd i amryw o fudiadau eraill, mae rhestr gyflawn isod.

Derbyniwyd cynigion am baratoi manylion a goruchwylio'r gwaith a chyflogwyd y cwmni Wakeman o Gaernarfon. Y dilyn ceisiadau am brisiau penodwyd y cwmni Clayton o Fangor. Bu'r ddau gwmni yma yn llwyddiannus iawn yn cwblhau'r gwaith ar amser ac o fewn y pris a gytunwyd. Bu cydweithio hapus iawn gyda ni, Dylan Morris (Wakeman) a Dewi Thomas (Clayton) . Cwblhawyd y gwaith ac agorwyd y neuadd ar ei newydd wedd yn Ebrill 2017.

Gan fod prisiau a dderbyniwyd gan ymgymerwyr yn sylweddol uwch na'r amcangyfrif bu rhaid addasu cynlluniau. Y ddau newid mwyaf oedd diddymu gwresogi drwy ddefnyddio gwres o'r ddaear a maes parcio. Yn ddiweddarach derbyniwyd cyfraniadau ychwanegol gan yr elusennau Foyle a Garffield Weston a gan berson lleol sydd yn dymuno bod yn ddienw cyfraniad sylweddol. Gydag arian oedd yn weddill o'r adeiladu llwyddwyd i gwblhau'r maes parcio ym 2020. Yn yr achos yma eto buom yn ffodus o gyflogi'r ymgymerwr Harri Pugh a fu yn gymorth i greu safle o ansawdd gwell na thybiwyd.



Llanbedr Village Hall Background

The Hall is administered by Canolfan Gymdeithasol Llanbedr, a charity number 525204. Like all registered charities details can be found on the web site https://register-of-charities.charitycommission.gov.uk/cy/

The charity was founded in 1979 when a building owned by the WI was transferred to the charity for use as a village hall. In effect the composition of the charity remains as it was but the definition of trustees has changed. Initially two community councillors and a representative from a number of local organisations had been named as trustees. Over time some of the organisations ceased to exist and others failed to offer names to be a trustee. As a result, with agreement of the Charity Commission , the constitution was changed so that all community councillors were a trustee (unless they did not wish to be so) and that there was a right to co-opt others. Currently the trustees are councillors and two others have been co-opted. The charity is very keen to co-opt others so if you are interested in volunteering please contact the secretary by e-mail neuadd.llanbedr@outlook.com.

Around 1995 the field near Bryn Deiliog was transferred from the community council to the charity with the condition that the council was responsible for the maintenance of the site. This was to enable grants to create a playing field to be secured.

It became clear by the beginning of this century that there was a need to invest in order to provide better resources than those available in the old building. Following a public meeting it was decided that a new building was needed. An architect was appointed to prepare a plan and lottery funding was applied for. Unfortunately this was a failure. The reason given was that it was too ambitious a scheme for a village the size of Llanbedr. Courtesy of councillor Gruffydd Price a new scheme based on improvement and additions to the old building was prepared. On the basis of this scheme a successful application was made for lottery funding and also to a range of other organisations, a complete list is below.

Proposals for the preparation of details and supervision of the work were received and Wakemans a company from Caernarfon was employed. Following quotations the company Clayton from Bangor was appointed to construct the building. These two companies were very successful in completing the work on time and within the agreed price. There was a very happy collaboration with , Dylan Morris (Wakeman) and Dewi Thomas (Clayton) . The work was completed and the refurbished hall opened in April 2017.

As prices received by undertakers were significantly higher than estimated the schemes had to be adjusted. The two biggest changes were the abandonment of using ground source heating and a car park. Additional contributions were later received from the charities Foyle and Garffield Weston and from a local person who wishes to be anonymous. With funding remaining from the construction the car park was completed in 2020. In this case again we were fortunate to employ a local contractor, Harri Pugh, who helped to create a better quality site than was anticipated.